

Hwb BCS Cymru

Beth yw Hwb BCS Cymru?

Mae Hwb BCS Cymru yn ymgynnull cyflogwyr, addysgwyr ac unigolion i:

- Helpu pobl i gael mynediad at yrfa wobrwyl a phwrpasol mewn Digidol/Tech
- Cefnogi a chreu diwylliant o weithwyr proffesiynol moesegol a chymwys
- Cyfnewid gwybodaeth rhwng diwydiant a'r byd academiaidd
- Curadu datblygiad unigolion i ddiwallu anghenion addysg, diwydiant a'r gymdeithas ehangach
- Cydweithio i gefnogi caffael a chadw talent
- Helpu llunwyr polisi i ddeall y farchnad lafur digidol a gwneud argymhellion sy'n berthnasol i'r cyd-destun i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac economaidd

Pwy all ymuno?

Arweinir Hybiau BCS gan Arweinydd Cymunedol penodedig, a gefnogir gan Reolwr Datblygu Rhanbarthol ac Ysgrifenyddiaeth BCS, ac mae aelodaeth Hybiau fel arfer yn cynnwys:

- Cyflogwyr sydd wedi ymrwymo i broffesiwn moesegol a chymwys drwy aelodaeth a neu sicrwydd sgiliau.
- Cynrychiolwyr o brifysgolion achrededig BCS
- Partner
- Cadeiryddion canghennau BCS

Mae Hwb BCS Cymru yn grŵp strategol sy'n gweithio ar y cyd fel pwyllgor i rannu arbenigedd a mewnwelediad i ddeall a mynd i'r afael â heriau sy'n cyfyngu ar y proffesiwn TG rhag darparu budd cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru.

Ymchwil:

Gan weithio gyda'r byd academiaidd a diwydiant, cynhyrchu ymchwil sy'n galluogi dull seiliedig ar dystiolaeth o ddeall a mynd i'r afael â meysydd her.

Darpariaeth:

Datblygu a chyflwyno rhaglenni gwaith ar y cyd a all greu newid sylweddol wrth fynd i'r afael â materion fel y diffyg sgiliau, cynhwysiant a chefnogi twf economaidd-gymdeithasol trwy Broffesiwn TG cryf.

Cymuned:

Gan weithio ochr yn ochr â changhennau BCS a rhwydweithiau partner, curadu rhwydwaith cymunedol i gefnogi twf gweithwyr proffesiynol ac ysbrydoli pobl i'r proffesiwn.